**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 16 Medi 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | S J Gallagher | P R Hood-Williams |
| E T Kirchner | M B Lewis | G J Tanner |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dave Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

---

**42 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**43 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi – Pobl a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

**44 Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl - Adroddiad Cryno 2019-2020.**

Dechreuodd y Cadeirydd drwy ddiolch i Simon Jones am ei holl waith caled, nid yn unig ar yr adroddiad hwn, ond hefyd y gwaith a wnaed i gefnogi'r Pwyllgor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cyflwynodd Simon Jones, Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol, Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl ar gyfer 2019-2020 a oedd yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl yn ystod 2019/20. Tynnodd sylw at y gweithgareddau a'r cyflawniadau nodedig yn y meysydd polisi a ystyriwyd, fel rhan o'r rhaglen waith y cytunwyd arni gydag Aelod y Cabinet.

Roedd rhaglen waith y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl (fel y'i nodir yn Atodiad A) yn cynnwys dau faes gwaith arwyddocaol:

- Trosglwyddo ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anableddau;
- Ymagwedd Strategol at gomisiynu modelau newydd o ofal a chefnogaeth.

Amlinellodd pam y dewiswyd y pynciau hyn, yr ymrwymiadau polisi, y swyddogion arweiniol, y gwaith a wnaed, y canlyniad a'r camau nesaf. Aeth ymlaen i egluro sut y defnyddiwyd cyd-gynhyrchu ar gyfer pob un o'r pynciau.

Soniodd hefyd am y darn o waith a wnaed ar "Fyw â Chymorth" a gwblhawyd gan y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl ym mis Ebrill 2019.

Trafododd y Pwyllgor effaith Covid-19 ar adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r cynllun adfer y disgwylid iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Hydref 2020. Dywedodd y Cadeirydd y dylai adroddiad y Cabinet roi arweiniad pellach ac amlinellu ffocws y gwaith sydd i'w wneud gan y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl yn ystod 2020-2021.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Anfonir yr adroddiad at yr Aelodau Cabinet perthnasol i benderfynu a ddylid ei gyflwyno fel adroddiad "Er Gwybodaeth" i gyfarfod nesaf y Cabinet sydd ar gael.

## 45 Cynllun Gwaith 2019-2020.

Amlinellodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2019-2020.

Fel a ddywedwyd yn flaenorol, roedd yn disgwyl y byddai adroddiad y Cynllun Adfer a drefnwyd i'w gyflwyno i'r Cabinet ym mis Hydref 2020 yn darparu rhagor o gyngor ac arweiniad ar waith y Pwyllgorau Datblygu Polisi yn y dyfodol.

Roedd hefyd yn disgwyl adroddiadau diweddaru pellach mewn perthynas â'r Ymagwedd Strategol at Fodelau Comisiynu dros weddill Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

## 46 Diolch.

Mynegodd y Cynghorydd Ceri Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl ei ddiolch i bawb am eu holl gefnogaeth, eu gwaith caled a'u cyfraniadau yn ystod y 18 mis diwethaf, yn arbennig:

Allison Lowe a Jeremy Parkhouse, Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd;
Simon Jones, Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol;
Chris Francis, Jane Whitmore a Lisa Banks am eu gwaith ar y ddau brif bwnc y canolbwyntiwyd arnynt eleni;
Dave Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Julie Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd a fyddai'n ymddeol cyn bo hir;

Y Swyddogion Cyfreithiol, yn enwedig Lisa Thomas a holl aelodau’r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl sy’n gynghorwyr am gefnogi'r Pwyllgor mor ddiwyd.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.24 pm

**Cadeirydd**